



Canolbwyntio ar Chwaraeon a Hamdden Egnïol

Mae trigolion ym mwrdeistref sirol Caerffili yn cael eu hannog i helpu i lunio dyfodol chwaraeon a hamdden egnïol ar draws yr ardal am y 10 mlynedd nesaf.

Dechreuodd cyfnod ymgynghori o 10 wythnos ym mis Gorffennaf ac mae pawb yn cael eu hannog i ddweud eu dweud cyn y dyddiad cau ar **ddydd Gwener 21ain Medi**.

Dywedodd y Cyng. Nigel George, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth, "Mae Strategaeth ddrafft Chwaraeon a Hamdden Egnïol y cyngor yn cwmpasu'r ystod o gyfleoedd chwaraeon a gweithgareddau corfforol a ddarperir gan y cyngor, ar y cyd â'n partneriaid allweddol.

"Mae dros 80% o'n bwrdeistref sirol hardd yn wledig ac rydym yn ddigon ffodus bod gennym nifer o barciau gwledig, llwybrau beicio a cherdded helaeth, canolfannau hamdden, meysydd chwarae, caeau

chwaraeon, parciau sgelfrio a chyfleusterau awyr agored amrywiol eraill i'n cymuned i'w mwynhau.

"Ar hyn o bryd, mae Caerffili yn gweithredu mwy o ganolfannau hamdden nag unrhyw awdurdod lleol arall ledled Cymru gyfan. Nid gwasanaeth statudol yw hwn ac yn anffodus nid yw'n rhywbeth y gall yr awdurdod barhau i'w wneud yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

"Mae'r Strategaeth ddrafft yn cynnig gweledigaeth am ddarpariaeth canolfannau hamdden barhaus, yn canolbwyntio ar 4 o gyfleoedd hamdden strategol o safon uchel yng Nghaerffili, Trecelyn, Rhisga ac un arall yn ardal Bargod neu Aberbargod. Mae hyn yn golygu y bydd angen inni ystyried dyfodol ein cyfleoedd presennol eraill gyda rhai yn cael eu rheoli gan ysgolion, ond gall rhai eraill gau dros gyfnod 10 mlynedd y strategaeth."



"Mae'n bwysig bod cymaint o bobl â phosib yn cymryd rhan a dweud eu dweud i helpu i lunio'r ffordd yr ydym yn darparu chwaraeon a hamdden egnïol ar draws bwrdeistref sirol Caerffili dros y degawd nesaf."

meddai'r Cyng George

Am ragor o wybodaeth, ewch i <https://www.caerphilly.gov.uk/sars-1> neu ewch i'ch canolfan hamdden, llyfrgell neu swyddfa cyngor lleol.

Y Cyngor yn buddsoddi mewn hyfforddiant gyrwyr



■ Carl Dallimore (Hyfforddwr Gyrwyr CBSC) a'r Cyng. Nigel George.

Mae Tîm Rheoli Fflyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn rhedeg ystod o asesiadau gyrwyr CPC ac HGV trylwyr mewnol ar gyfer ei staff ei hun, awdurdodau lleol cyfagos, sefydliadau preifat ac unigolion.

Mae'r cyngor yn gweithredu ystod eang o gerbydau, gan gynnwys peiriannau torri glaswellt, cerbydau casglu sbwriel, bysiau mini, cludiant o'r cartref i'r ysgol a chludiant gymunedol, graeanu'r gaeaf, goleuadau stryd a llawer o wasanaethau eraill.

Dywedodd y Cyng. Nigel George – Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth: "Mae buddsoddiad y cyngor mewn CPC mewnol rheolaidd a hyfforddiant HGV achrededig Asiantaeth Safonau Cerbydau a Cherbydau nid yn unig yn dangos ymrwymiad go iawn i ddyfodol ei staff a'n trigolion, ond mae'n sicrhau bod ein gyrwyr yn perfformio yn unol â chanllawiau llym y diwydiant."

Mae'r asesiadau gyrwyr a'r asesiadau hyfforddi ar gael yn ein Depo yn Nhir-y-Berth i unrhyw yrwyrr sydd angen hyfforddiant CPC neu HGV.

I gael rhagor o wybodaeth ffoniwch 01443 863451

Bellach mae Credyd Cynhwysol yn fyw yng Nghaerffili

Dechreuodd Credyd Cynhwysol ym mwrdeistref sirol Caerffili ar y 5ed Medi.

Mae'n brawf modd budd-dal newydd ar gyfer pobl sy'n ddi-waith neu ar incwm isel; mae'n disodli:

- Budd-dal Tai
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans ceisio gwaith (sy'n seiliedig ar incwm)
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (yn seiliedig ar incwm)
- Credyd Treth Plant
- Credyd Treth Gwaith

Dim ond hawliadau newydd neu newidiadau mewn amgylchiadau ar gyfer unrhyw un o'r budd-daliadau uchod fydd yn cael eu heffeithio i ddechrau. Telir Credyd Cynhwysol mewn un taliad misol, a fydd yn cynnwys help gyda'ch costau tai os ydych yn gyfrifol am dalu rhent am ble rydych chi'n byw. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i chi dalu'ch rhent o'r taliad Credyd Cynhwysol a gewch bob mis.

Dim ond ar-lein y gellir gwneud hawliadau ar gyfer Credyd Cynhwysol; i baratoi ar gyfer hyn mae'n rhaid i chi:

- Wirio faint o rent y mae'n rhaid i chi ei dalu
- Gael cyfrif banc
- Gael cyfeiriad e-bost

Gall tenantiaid y Cyngor hefyd gysylltu â'r tîm Rhentu ar 01443 811450; i denantiaid tu allan i'r cynghorau, ffoniwch Fudd-daliadau Tai ar 01443 864099.

Am ragor o wybodaeth, ewch i

www.understandinguniversalcredit.gov.uk

Tîm hyfforddiant asbestos wedi ennill gwobr UKATA

Mae marwolaeth cydweithiwr o mesothelioma, clefyd sydd ynghlwm wrth asbestos, wedi rhoi ystyr ychwanegol arbennig i wobwr ddiweddar a enillwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Enillodd Tîm Hyfforddiant Asbestos Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Wobr Datblygu'r Gweithlu Cymdeithas Hyfforddiant Asbestos y DU (UKATA) 2018 yng Ngwobrau Rhagoriaeth UKATA diweddar.

Cyflwynwyd y wobwr gan yr athletwr Olympaidd chwedlonol, Kriss Akabusi, mewn seremoni ysblennydd a gynhaliwyd i nodi degfed pen-blwydd UKATA. Wedi ei sefydlu yn 2008, mae UKATA yn awdurdod blaenllaw ar gyfer darpariaeth hyfforddiant asbestos yn y Deyrnas Unedig. Ali Rees-Evans, Uwch Swyddog Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a Helen Hill, Swyddog Asbestos, a dderbyniodd Wobr Rhagoriaeth Datblygu'r Gweithlu UKATA ar ran y cyngor.

Dechreuodd rhaglen ymwybyddiaeth a hyfforddiant asbestos y Cyngor bron i 10 mlynedd yn ôl ac mae wedi darparu hyfforddiant i filoedd o staff a chontractwyr sy'n cynorthwyo gyda gwaith cynnal a chadw bron i 12,000 o dai cyngor ac adeiladau corfforaethol, yn ogystal â staff sy'n gweithio mewn canolfannau ailgylchu gwastraff domestig, priffyrdd, gwasanaethau glanhau, adeiladau cymunedol a phrosiectau dymchwel.

Dywedodd y Cyng. Colin Gordon, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol: "Llongyfarchiadau i'r tîm ar gael cydnabyddiaeth am ddarparu hyfforddiant o'r radd flaenaf wrth ennill y wobwr hon, da iawn mawr ichi. Nid ymarfer ticio bocs yn unig i'r cyngor ydyw. Rydym yn frwd dros wella sgiliau ac ymwybyddiaeth unrhyw un a all ddod i gysylltiad ag asbestos i sicrhau eu bod hwy a'r bobl o'u cwrpas yn ddiogel."



Grantiau Cist Gymunedol Chwaraeon Caerffili

Mae ceisiadau bellach ar gael ar gyfer Grant Cist Gymunedol Chwaraeon Caerffili 2018.

Gan gynnig hyd at £1,500, bydd y grant hwn yn mynd tuag at brosiect chwaraeon cymunedol grŵp i wella safonau a chyfranogiad. Gwariodd y panel barnu diwethaf £27,624 ac ar hyn o bryd mae £77,600 yn parhau i fod ar gael i'w ddefnyddio.

Bydd yr arian hwn ar gael i glybiau neu gymdeithasau chwaraeon, clybiau ieuenticid neu grwpiau cymunedol; unrhyw glwb sydd â chyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd dilys ar draws bwrdeistref sirol Caerffili.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb archebu apwyntiad i helpu i gwblhau eu cais gyda Swyddog Datblygu Chwaraeon Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar 23-24 Hydref neu 11-12 Rhagfyr.

Mae slotiau amser o 5pm i 7pm a rhaid archebu pob apwyntiad ymlaen llaw.

Y dyddiadau cau eleni ar gyfer ceisiadau yw 8 Tachwedd a dyddiad olaf y cais yw 10 Ionawr 2019.

Am fwy o wybodaeth neu i archebu apwyntiad ffoniwch Datblygiad Chwaraeon ar 01495 235371



Lle gwydych i wneud busnes



Y Cyng. Sean Morgan, Lorenzo Angelucci a'r Cyng. Dave Poole yn Nhŷ Dyffryn, cartref newydd Transcend Packaging.

Yn ddiweddar, mae nifer o sefydliadau mawr wedi dewis bwrdeistref sirol Caerffili i sefydlu eu prif ganolfannau cynhyrchu, gan gadarnhau bod Caerffili mewn gwirionedd yn lle deniadol i drafod busnes.

Mae cwmni pecynnu Transcend Packaging, sydd wedi sicrhau contract mawr gyda McDonalds i gyflenwi gwelltpapur pydradwy yn lle cynhyrchion plastig traddodiadol, wedi sefydlu ei brif ganolfan gynhyrchu yn Nhŷ Dyffryn ar Ystâd Fusnes Dyffryn yn Ystrad Mynach.

Dywedodd Lorenzo Angelucci, Rheolwr Gyfarwyddwr Transcend Packaging, "Fe wnaethom sefydlu Transcend Packaging i helpu cwmnïau i ddod yn fwy cynaliadwy ar draws ystod eang o gynhyrchion, o wellt papur i gartonau plygadwy. Mae llawer o aelodau ein tîm yn Transcend wedi gweithio a byw yng Nghaerffili ac rydym yn cynllunio i ddod yn rhan annatod o'r gymuned hon. Rydw i wedi cael fy swyno'n fawr gan y rhan arbennig hon o Dde Cymru sy'n llawn angerdd, sgiliau ac adnoddau, ac rwy'n gwerthfawrogi gweledigaeth a chymorth y Cyngor wrth wneud ein symud yma yn bosibl.

"Rydym yn falch o alw bwrdeistref sirol Caerffili yn gartref ac edrychwn ymlaen at ddarparu swyddi a chyfleoedd yma am flynyddoedd i ddod."

Hefyd, agorodd Ysgrifennydd Economi Llywodraeth Cymru, Ken States, bencadlys newydd £14 miliwn y cwmni gwyddorau

bywyd, BBI Group, yn swyddogol. Mae'r pencadlys byd-eang newydd wedi canoli'r gweithgareddau gweithgynhyrchu a datblygu o leoliadau ym Mlaenafon, Caerdydd a Dundee ar ei safle newydd yng Nghymru, bwrdeistref sirol Caerffili. Ar ôl sicrhau pecyn o £1.8 miliwn gan Lywodraeth Cymru, bydd y symudiad newydd hwn yn creu ac yn gwarchod dros 360 o swyddi yng Nghymru erbyn 2020. Bydd hyn yn helpu i roi mwy o gyfleoedd i bobl ar draws bwrdeistref sirol Caerffili ac yn rhoi hwb sylweddol i'r economi leol.

Bydd gwneuthurwr drysau, IG Doors Limited, hefyd yn galw bwrdeistref sirol Caerffili yn gartref, gyda'u cyfleuster cynhyrchu celfyddydol diweddaraf yn seiliedig ar Barc Busnes Oakdale.


Bydd yr adeilad newydd yn cynnwys rhai o'r peiriannau a'r offer cynhyrchu mwyaf technolegol datblygedig ar y farchnad gyfredol a fydd yn galluogi datblygu swyddi medrus ymhellach a gwella'r busnes. Mae IG Doors yn cynhyrchu drysau cyfansawdd ar gyfer ystod o farchnadoedd gan gynnwys y sector adeiladu tai lle maent yn arweinydd y farchnad sy'n cyflenwi cynhyrchion i ddatblygwyr tai cenedlaethol.

Dywedodd y Dirprwy Arweinydd, y Cyng. Sean Morgan, "Mae'r ffaith bod y busnesau hyn ac eraill wedi dewis bwrdeistref sirol Caerffili yn gartref yn dangos mwy o hyder yn yr ardal, ac yn tynnu sylw at y ffaith ein bod yn lle deniadol i wneud busnes, diolch i'n lleoliad strategol yng nghanol rhanbarth Dinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Byddant yn helpu i greu cyfleoedd i fwy o bobl ar draws yr ardal a helpu i roi hwb go iawn i'n heconomi leol."

Tenantiaid... A yw eich landlord chi'n torri'r gyfraith?

Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i bob landlord yng Nghymru gofrestru, a phob landlord sydd yn hunan reoli ac asiantau gael eu trwyddedu.

Gwiriwch ein cofrestr



Gallwch ddefnyddio'r gofrestr gyhoeddus ar ein gwefan i wirio bod eich landlord yn cydymffurfio â'r gyfraith.

www.rhentudoeth.llyw.cymru
www.rentsmart.gov.wales

☎ 03000 133344



Galwad i ddarpar ★ Ofalyddion Maethu



Yn ddiweddar, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi adolygu'r ffioedd a'r lwfansau sydd ar gael i ofalyddion maethu yn y fwrdeistref ac mae'n annog preswylwyr a allai fod gydag ychydig o amser sbâr a lle yn eu cartref i ystyried gwneud gwahaniaeth hanfodol i fywyd plentyn drwy ddod yn **ofalydd maethu**.

Mae ffioedd a lwfansau i ofalyddion maethu yn cynnwys lwfans isafswm wythnosol a nodir gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â ffi gofalydd maethu fesul plentyn. Mae'r cyfanswm lwfans a ffioedd fesul plentyn yn amrywio o £300- £380 y mis (dibynnol ar oedran), gyda lwfansau ychwanegol ar gyfer pen-blwyddi, Nadolig, daliedyddion, lwfans dillad cychwynnol, milltired, gofal dydd a lwfansau gwyliau.

Maethu yw'r cyfle i wneud gwahaniaeth pwysig i fywyd plentyn. Gall pob math o deuluoedd o bob math o gefndir faethu plentyn neu grŵp o blant. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar hyn o bryd yn chwilio am fwy o ofalyddion maethu ar gyfer plant o bob oedran yn y fwrdeistref sirol a fydd yn fodlon helpu rhoi'r dechreuad gorau i fywyd iddynt.

Meddai un o ofalyddion maethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, "Mae bod yn ofalydd maethu yn un o'r swyddi mwyaf gwerth chweil yr wyf wedi'i chael. Yr wyf yn llawn parch at bob plentyn sydd wedi cerdded i mewn i fy nhŷ; mae eu gallu i addasu a dechrau tyfu yn anhygoel. Mae pob plentyn yn dod â'u heriau a'u gwobrau, a phan fyddwch chi'n eu derbyn ynghyd â'u profiadau, mae'r wobwr i chi a nhw yn cynhesu calon."

Mae gofalyddion maethu yn derbyn cefnogaeth uniongyrchol gan Dîm Maethu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy am ddod yn ofalydd maethu?

Tecstiwrch **'foster'** i **78866** ffoniwch **0800 587 5664**

neu ewch i www.caerffili.gov.uk/fostering



Diwedd gweithfeydd y gylchfan mewn golwg

Bydd modurwyr, trigolion a'r gymuned fusnes leol yn croesawu'r newyddion y disgwylir i gynllun Cylchfan Pwll-y-pant gael ei gwblhau cyn y Nadolig eleni, os bydd y gwaith yn symud ymlaen yn ôl y cynllun.



Y dyddiad cwblhau gwreiddiol oedd Hydref 2018, ond mae hyn bellach wedi'i ddiwygio i ganol mis Rhagfyr 2018 oherwydd nifer o newidiadau allweddol a wnaed i'r cytundeb gwreiddiol, gan gynnwys agor dwy lôn i draffig oddi ar ffordd osgoi Llanbradach.

Dywedodd y Cyng. Sean Morgan, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, "Rydym yn ymwybodol o bwysigrwydd cwblhau'r gwaith hwn cyn gynted ag y bo'r modd, yn enwedig cyn cyfnod y Nadolig, sy'n allweddol i fusnesau lleol.

Mae'r cyngor wedi gweithio'n agos gyda'n contractwr i ymateb yn gadarnhaol i anghenion trigolion a'r

gymuned fusnes leol ac rydym yn falch bod manylion gorffen y rhaglen bellach wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, byddwn yn ychwanegu nodyn o rybudd gan y gall amgylchiadau annisgwyl, yn enwedig o ran y tywydd, effeithio ar ein fframiau amser, ond byddwn yn sicrhau bod pawb yn cael eu diweddaru os yw'r sefyllfa hon yn newid," ychwanegodd.

Am ragor o wybodaeth, diweddariadau a chwestiynau cyffredin am y cynllun, ewch i:
www.caerffili.gov.uk/pwllpantcymraeg

Mae Llyfrgelloedd Caerffili yn ymrwmo i fod yn **dementia** gyfeillgar

Mae Llyfrgelloedd Caerffili wedi ymrwmo i gynorthwyo pobl sy'n byw â Dementia ar draws y fwrdeistref sirol.

Drwy weithio mewn partneriaeth â "The Alzheimer's Society", bydd Gwasanaeth Llyfrgell Caerffili yn hyfforddi pob aelod o'r staff i ddod yn Gyfeillion Dementia. Bydd staff yn cael cipolwg ar y cyflwr er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae dementia yn effeithio ar bobl, a drwy hyn gwella profiad i'w cwsmeriaid.



Yn ogystal â chreu amgylchedd croesawgar a chefnogol, bydd y gwasanaeth yn sicrhau ei bod yn cynnig yr ystod orau o adnoddau i'r rhai sy'n byw gyda dementia, yn ogystal ag offer i gefnogi'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Mae hyn yn cynnwys ehangu'r amrediad poblogaidd o lyfrau 'Lluniau i Rannu' sydd eisoes ar gael mewn llyfrgelloedd, neu gellir eu darparu i gartref neu gartref gofal unigolyn. Bydd pob un o'r 18 llyfrgell hefyd yn cymryd rhan yn y prosiect 'Reading Well for Dementia in Wales', gan roi gwybodaeth a chynghor ar gael i bobl sy'n byw gyda dementia, yn ogystal â llyfrau ffuglen, ffotograffig a chofion sy'n cael eu defnyddio mewn therapi atgoffa. Bydd y gwasanaeth llyfrgell hefyd yn datblygu 20 o Gyda Cof Dementia i'w benthyca i gwsmeriaid.

Bydd yr adnoddau hyn ar gael i gwsmeriaid y llyfrgell, i greu gwell dealltwriaeth o ddementia a newid canfyddiadau cymunedol drwy drawsnewid y ffordd y mae trigolion y fwrdeistref yn meddwl ac yn siarad am y cyflwr.



DATHLU'R AWYR AGORED

Yn ddiweddar, dadorchuddiwyd enillwyr Gwobr BANER WERDD eleni, nod rhyngwladol o barc ansawdd neu ofod gwyrdd - gyda bwrdeistref sirol Caerffili yn llwyddo mewn chwech o'i safleoedd.

Cyhoeddodd Cadwch Gymru'n Daclus bod 201 o barciau a mannau gwyrdd ar hyd a lled Cymru, sy'n torri bob record, wedi bodloni'r safonau uchel sydd eu hangen i dderbyn Gwobr y Faner Werdd a Gwobr Gymunedol y Faner Werdd. Bydd y Faner Werdd yn hedfan ar chwe safle ym mwrdeistref sirol Caerffili fel cydnabyddiaeth am eu cyfleusterau rhagorol ac ymrwymiad i ddarparu mannau gwyrdd o ansawdd da.

Y chwech yw:

- **Parc Morgan Jones**
- **Parc Ystrad Mynach**
- **Mynwent Brithdir**
- **Parc Waunfawr**
- **Parc Cwm Darran**
- **Coedwig Cwmcarn**

Dywedodd y Cyng Nigel George, "Rydym wrth ein boddau bod ein safleoedd unwaith eto wedi ennill yr hawl i hedfan y Faner Werdd fawreddog. Y gwobrau hyn yw'r marc rhyngwladol o barc ansawdd neu ofod gwyrdd ac rydym yn ffodus iawn o gael cyfleusterau o'r fath safon ar ein stepan drws. Buaswn i'n annog pawb i fynd allan i'r awyr agored yr haf hwn a mwynhau'r parciau anhygoel a mannau gwyrdd sydd ar gael gennym."



Ychwanegodd Lucy Prisk, Cydlynnydd y Faner Werdd yng Nghadw Gymru'n Daclus, "Rydym wrth ein bodd o fod yn dathlu blwyddyn arall Gwobrau'r Faner Werdd yng Nghymru sy'n torri bob record. Mae'r 201 o faneri sy'n hedfan yn dyst i ymroddiad a brwdfrydedd y staff a'r gwirfoddolwyr ar draws y wlad, sy'n gweithio'n ddiflino i gynnal safonau Gwobr y Faner Werdd.

Cyflwynir rhaglen Gwobr y Faner Werdd yng Nghymru gan elusen amgylcheddol, Cadwch Gymru'n Daclus, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Y beirniaid yw arbenigwyr gofod gwyrdd, sy'n gwirfoddoli eu hamser i ymweld â safleoedd yr ymgeiswyr a'u hasesu yn erbyn wyth maen prawf llym, gan gynnwys safonau garddwriaethol, glanweithdra, rheolaeth amgylcheddol a chyfranogiad cymunedol.

Mae rhagor o wybodaeth am barciau a mannau awyr agored bwrdeistref sirol Caerffili ar gael yn **www.caerffili.gov.uk**

Storiau Llwyddiant Ysgolion

Dathlodd myfyrwyr ar draws bwrdeistref sirol Caerffili eu llwyddiannau TGAU a Lefel A yn ddiweddar.

Mae canlyniadau CBAC dros dro yn dangos fod y gyfradd basio ar gyfer TGAU (Graddau A* - G) yn 95.13%. Mae'r canlyniad dros dro ar gyfer arholiadau CBAC hefyd yn dangos bod y radd pasio A* - C yn 55.99%, a'r radd pasio ar gyfer A* - A yn 13.10%.

Y gyfradd basio dros dro cyffredinol ar gyfer Lefel A oedd 96.1% (A* - E).

Y canlyniad dros dro ar gyfer graddau A* - A oedd 17.1%, cynnydd o 2.1% o 2017 a 67.7% o'r graddau'n C neu'n uwch.



Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda llywodraethwyr, ysgolion a'i bartneriaid, Gwasanaeth Cyflawniad Addysg (EAS) er mwyn cyflymu'r gwelliannau ym mhob ysgol a sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc ar draws bwrdeistref sirol Caerffili.

Dywedodd y Cyng. Philippa Marsden, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad, "Llongyfarchiadau i bawb ar gyfres o ganlyniadau gwych unwaith eto. Y tu ôl i'r ffigurau pennawd mae miloedd o straeon llwyddiant unigol sy'n haeddu cael eu dathlu. Mae'n ganlyniad o waith caled ac ymroddiad gan ddisgyblion ac athrawon ym mhob ysgol ar draws Caerffili, gan gydweithio i sicrhau bod pawb yn cyrraedd eu nodau unigol.

Helpu gyda chostau dillad ysgol

Gall rhieni neu warcheidwaid sydd â phlant sy'n dod i mewn i'r Dosbarth Derbyn mewn Ysgol Gynradd neu Flwyddyn 7 mewn Ysgol Uwchradd ym Medi 2018 wneud cais am Grant Mynediad newydd PDG Llywodraeth Cymru.

Dim ond rhieni sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, budd-daliadau cymwys neu Blant y Gofalir Amdanynt (y plant hynny sydd mewn Gofal Awdurdod Lleol) sydd yn gymwys am y grant o £125.

Dywedodd y Cyng. Philippa Marsden, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad "Bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r teuluoedd sy'n byw yn yr ardal, gan leddfu'r baich ariannol sy'n gysylltiedig â phrynu gwisgoedd ysgol, gwisg chwaraeon ysgol ac ar gyfer gweithgareddau ehangach fel sgowntiaid a guides a chwaraeon y tu allan i ysgol."

Mae gan bob ysgol ei ddull ei hun am gymorth yn y mater hwn a dylai rieni/gwarcheidwaid wirio gydag ysgol eu plentyn am fanylion.

Benthyciadau Gwella Cartrefi

Mae benthyciadau di-log ar gael i helpu perchnogion cartrefi cymwys i wneud gwelliannau a/neu waith hanfodol i wneud cartrefi'n ddiogel, yn gynnes a chysurus:

Benthyciadau Perchen Feddianwyr:

Ar gyfer perchnogion tai cymwys sy'n berchen ac sy'n byw yn yr eiddo y mae arnynt angen benthyciad, neu mewn achos eiddo gwag, yn meddiannu'r eiddo pan fydd y gwaith wedi cael ei gwblhau. Benthyciadau ar gael o £1,000 i £25,000 am gyfnod hwyaf o 10 mlynedd.

Benthyciadau Landlord: Benthyciadau o £1,000 i £25,000 i landlordiaid preifat i adfer eiddo gwag yn ôl i ddefnydd neu ar gyfer gwaith cymwys i eiddo rhent preifat. Bydd y cyfnod benthyciad uchaf yn dibynnu ar ddefnydd yr eiddo yn y dyfodol, h.y. p'un a gaiff ei werthu neu ei rentu pan fydd y gwaith yn cael ei gwblhau.

Benthyciadau Gydol Oes: Ar gyfer ymgeiswyr cymwys sy'n methu â bodloni'r meini prawf ar gyfer benthyciadau perchen-feddianwyr. Mae benthyciadau ar gael hyd at £25,000 gyda gwerth y benthyciad yn cael ei roi fel tâl cyfreithiol yn erbyn yr eiddo. Mae'r benthyciad wedyn yn ad-daladwy mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft wrth brynu neu waredu'r eiddo.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Thîm Tai Sector Preifat y Cyngor ar 01443 811379 / 811403 neu e-bostiwrch: taisectorpreifat@caerffili.gov.uk



Rhaglen Brentisiaethau wedi'i chymheradwyo

Yn ddiweddar, mae Aelodau Cabinet y Cyngor wedi cytuno i ddyrannu dros hanner miliwn o bunnoedd o arbedion i ddarparu cyfleoedd am brentisiaeth ar draws ystod o wasanaethau'r cyngor.

Sefydlwyd y £530,000 o gyllid o ganlyniad i danwariant yn yr ardal hon, a fydd bellach yn cael ei ryddhau ar gyfer y rhaglen brentisiaeth newydd a allai ddarparu hyd at 23 o brentisiaethau.

Yn ogystal â chyfleoedd prentisiaeth mwy 'traddodiadol', bydd mentrau eraill fel profiad gwaith a chyfleoedd am brentisiaeth a rennir hefyd yn cael eu hystyried.

Meddai'r Cyng. Sean Morgan, "Mae'r cyngor wedi defnyddio prentisiaethau ers ei sefydlu ym 1996 er mwyn galluogi pobl i ennill sgiliau a phrofiad hanfodol y gellir eu defnyddio i sicrhau cyflogaeth hirdymor. Bydd y prentisiaethau hefyd yn sicrhau bod prinder sgiliau'n cael sylw er mwyn diwallu anghenion y cyngor yn y dyfodol. Rwyf wrth fy modd bod y Cabinet wedi cytuno i ddyrannu cyllid tuag at raglen mor werth chweil."

Bydd y rhaglen brentisiaeth newydd yn cefnogi blaenoriaethau cyflogaeth, adfywio, sgiliau a phrentisiaethau Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerffili ac yn cyfrannu at nifer o nodau llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ar gyfer fy nyfodol...

rhowch gynnig arni!



Bydd preswylwyr bwrdeistref sirol Caerffili yn cael ymweliad gan gynghorydd ailgylchu sy'n cynrychioli'r cyngor dros yr wythnosau nesaf, fel rhan o ymgyrch newydd sy'n anelu at annog hyd yn oed mwy o gartrefi i gymryd rhan yn y cynllun ailgylchu gwastraff bwyd wythnosol.

Datblygwyd yr ymgyrch newydd i gynyddu cyfranogiad mewn ailgylchu gwastraff bwyd gyda dim ond tua 50% o breswylwyr yn rheolaidd ar hyn o bryd. Bydd yr ymgynghorwyr ailgylchu'n - rheolaidd ar hyn o bryd. Bydd yr cynghorwyr ailgylchu'n gweithio gyda phreswylwyr i gynyddu'r ffigwr hwn.

Dywedodd y Cyng. Nigel George, "Ar hyn o bryd mae tua 50% o breswylwyr yn cymryd rhan yn y cynllun casglu gwastraff bwyd wythnosol, ond byddai'n wych pe gallem gynyddu'r ffigwr hwn. Darperir cadiau gwastraff bwyd i bob cartref yn rhad ac am ddim ac rwy'n gobeithio'n fawr drwy'r ymgyrch hon y bydd preswylwyr yn gweld pa mor hawdd yw hi i gymryd rhan yn y cynllun ailgylchu gwastraff bwyd.

"Rydym eisoes yn un o'r ardaloedd sy'n perfformio orau yng Nghymru ar gyfer ailgylchu, ond ar gyfer dyfodol ein plant a dyfodol eu plant hwythau mae angen i ni wneud hyd yn oed yn fwy."



Eleni fel rhan o'r ymgyrch i ailgylchu mwy, mae cynllun gwobr (a noddir gan fusnesau lleol) yn cael ei gyflwyno i wobrwyo'r rhai sy'n defnyddio eu gwasanaeth casglu cadi gwastraff bwyd yn gywir.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ailgylchu o leiaf 64% o'r holl wastraff a gesglir erbyn 2019/20 a 70% erbyn 2024/25. Gallai methu â gwneud hynny arwain at osod dirwyon sylweddol o hyd at £1 miliwn.

Bydd gan bob cynghorydd ailgylchu sy'n cynnal ymweliadau ar stepen y drws fathodynau adnabod amlwg.

I ofyn am gadi gwastraff bwyd am ddim neu i wirio'ch diwrnod casglu gwastraff bwyd, ewch i www.caerphilly.gov.uk

Ble mae ein gwastraff bwyd yn mynd?

Cymerir gwastraff bwyd bwrdeistref sirol Caerffili ar gyfer proses o'r enw **Treulio Anaerobig** sy'n golygu bod ein gwastraff bwyd yn cael ei droi'n ffynhonnell o ynni adnewyddadwy.

Gellir allforio hyd at 90% o'r ynni a gynhyrchir gan y broses i'r grid cenedlaethol neu ei ddefnyddio'n lleol. Yn ogystal â'r ynni a gynhyrchir, mae ein gwastraff bwyd yn cael ei droi'n gynhyrchion gwerthfawr, gan gynnwys compost a gwrtaith hylif. Mae hyn yn golygu y gellir defnyddio ein gwastraff bwyd er budd cartrefi a busnesau lleol.

Gwastraff Bwyd = Egni

Cynllun adfywio Nelson ar y gweill

Mae cyngor bwrdeistref sirol Caerffili wedi croesawu dechrau'r gwaith ar gynllun adfywio mawr a fydd yn dod â chartrefi a busnesau newydd i mewn i ardal Nelson.

Mae paratoi'r safleoedd bellach ar y gweill yn Nhŷ Du yn Nelson ar gyfer 200 o gartrefi newydd a mwy na 6000 metr sgwâr o le ar gyfer cyflogaeth. Mae gwaith adeiladu i baratoi'r safle, a wneir gan Walters UK, yn cael ei ariannu gan £4 miliwn o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys £2.5 miliwn o gronfeydd yr UE. Bwriedir cwblhau'r gwaith yng nghanol 2019.

Dywedodd y Cyng. Sean Morgan, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac aelod o'r ward dros Nelson, "Croesawn yn fawr y cynllun adfywio cyffrous hwn ar safle Tŷ Du, a glustnodwyd ar gyfer datblygiad diwydiannol ers sawl blwyddyn. Bydd hyn yn dod â swyddi a chartrefi newydd sydd yn fawr eu hangen i'r safle strategol allweddol hwn. Mae'r buddsoddiad hwn eto yn bleidlais arall o hyder ym mwrdeistref sirol Caerffili fel lle deniadol i fyw, gweithio ac ymweld."

Dywedodd Ysgrifennydd yr Economi Llywodraeth Cymru, Ken Skates, "Mae swyddi o ansawdd da yn un o flaenoriaethau ein cynllun gweithredu lefel uchel ar gyfer Cymoedd De Cymru - Ein Cymoedd, Ein Dyfodol.

"Rwyf wrth fy modd bod Llywodraeth Cymru bellach mewn sefyllfa i benodi contractwyr ar gyfer safle Tŷ Du. Byddant yn ymgymryd â gwaith hanfodol a fydd yn adeiladu'r ffyrdd ac yn darparu'r gwasanaethau sy'n angenrheidiol ar gyfer datblygu safle Tŷ Du, gan ddarparu swyddi gwerthfawr yn y cyfnod adeiladu a helpu i wneud y safle yn gynnig deniadol i fusnesau a pherchnogion tai yn y dyfodol fel ei gilydd."

■ Cynrychiolwyr o CBSC, Llywodraeth Cymru a Walters yn safle Tŷ Du yn Nelson.



Mae eich pleidlais yn bwysig

Mae'r Cyngor yn apelio at breswylwyr am ddychwelyd ffurflenni Cofrestru Etholiadol.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn annog preswylwyr i ddychwelyd eu ffurflenni Cofrestru Etholiadol blyneddol.

Derbyniodd cartrefi ar draws y fwrdeistref lythyr yng Ngorffennaf gan dîm y Gwasanaethau Etholiadol yn gofyn i breswylwyr gadarnhau eu cyfeiriad fel rhan o'r broses gofrestru flynyddol. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob cartref ymateb i'r ffurflen hon a bydd unrhyw un nad yw'n ymateb yn derbyn ymweliad gan arolygydd y Cyngor.

Dywedodd Christina Harrhy, Swyddog Cofrestru Etholiadol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, "Mae'n bwysig bod preswylwyr yn ymateb cyn gynted ag y bo modd, fel y gallwn sicrhau bod gennym y manylion cywir ar y gofrestr etholiadol ar gyfer pob cyfeiriad yn y fwrdeistref sirol.

"Er mwyn gwneud yn siŵr eich bod chi'n gallu dweud eich dweud yn yr etholiadau yn y dyfodol, gwiriwch y ffurflen pan fydd yn cyrraedd ac atebwch cyn gynted ag y gallwch. Os nad ydych ar y gofrestr etholiadol gallai effeithio ar eich sgôr credyd a'ch gallu i bleidleisio."

Am fwy o wybodaeth,
ffoniwch 01443 866586
neu ewch i wefan CBSC
www.caerphilly.gov.uk



Gorfodaeth Parcio Sifil

Bwriedir i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gymryd drosodd dyletswyddau Gorfodi Parcio Sifil gan Heddlu Gwent ym mis Ebrill 2019.

Bydd trosglwyddo pwerau Gorfodaeth Sifil yn caniatáu i'r cyngor ddarparu dull cydlynol a chyson o orfodi rheoliadau traffig a bydd yn helpu i wella diogelwch ar y ffyrdd, llif traffig a lleihau rhwystrau.

O'r dyddiad hwn, bydd swyddogion gorfodi sifil yn ymgymryd â dyletswyddau gorfodi mewn trefi a phentrefi ar draws bwrdeistref sirol Caerffili

ac, os canfyddir bod cerbyd yn cael ei barcio'n anghyfreithlon, mae'n bosibl y bydd yn cyhoeddi Rhybudd Tâl Cosb.



Mae deddfwriaeth yn pennu y bydd unrhyw weddill a grëir drwy gyhoeddi Gorfodaeth Parcio Sifil yn cael ei ail-fuddsoddi yn y rhwydwaith priffyrdd.

Bydd y mesurau newydd yn caniatáu i'r cyngor ganolbwyntio ar fuddiannau trigolion, busnesau lleol a gweithredwyr trafndiaeth trwy dargedu parcio preswyl a chanol y dref a chamddefnyddio mathau penodol o barcio megis mannau parcio i'r anabl, ardaloedd llwytho, arosfannau bysiau a llinellau melyn dwbl.

Ar hyn o bryd Gwent yw'r unig ardal heddlu i barhau i orfodi parcio a bydd trosglwyddo pwerau i'r cyngor yn dod â Chaerffili a phob awdurdod lleol arall

yng Ngwent yn unol â gweddill Cymru.

Bydd canllawiau manylach yn cael eu cyhoeddi yn y flwyddyn newydd.

Cymorth i gyflogaeth

Eich cael yn ôl i waith gyda chymorth gyfeillgar am ddim.

- Hyfforddiant
- Cymorth 1-i-1
- Ffurflenni cais
- Technegau cyfweld
- CV's

01443 864227

adfywio@cymunedol@caerffili.gov.uk
pontyddiwaith@caerffili.gov.uk



Inspire 2 Work
Ysbrydoli i Weithio



'Gweithio mewn partneriaeth â Chymunedau a Chanolfan Byd Gwaith'

Adnoddau alergeddau Safonau Masnach yn derbyn clod cenedlaethol

Mae set newydd o adnoddau a gynhyrchwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i addysgu busnesau bwyd a chwsmeriaid ar ymwybyddiaeth alergedd wedi derbyn clod cenedlaethol.

Mae adnoddau a ariennir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn cynnwys poster sy'n gymorth i gwsmeriaid i gyfathrebu eu hanghenion alergeddau i fusnesau lle gallai fod rhwystr iaith a fideo a gynhyrchwyd fel adnodd addysgol i helpu Gweithredwyr Busnesau Bwyd i ddeall eu gofynion cyfreithiol. Mae pob un o'r adnoddau yn amlieithog ac maent ar gael mewn 9 iaith.

O ganlyniad i'w llwyddiant, defnyddir yr adnoddau poster a fideo gan yr ASB yn eu pecyn cymorth alergeddau, yn ogystal â chael eu dosbarthu ochr yn ochr â'r arweiniad Arfer Gorau ar gyfer Gosodiadau Gofal Plant yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o alergeddau wrth ddarparu ar gyfer plant.

Mae'r adnoddau amlieithog wedi'u cynllunio i gynorthwyo busnesau bwyd i gydymffurfio â deddfwriaeth, yn ogystal â chefnogi busnesau i ddarparu bwyd i ddefnyddwyr fwynhau'n ddiogel.

Dywedodd y Cyngorydd Eluned Stenner, Aelod o'r Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros Safonau Masnach: "Mae'r adnoddau alergedd wedi cael eu creu yn fewnol gan y Tim Safonau Masnach a'r Tim Cyfathrebu a byddant yn helpu cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, yn ogystal â chefnogi busnesau i ddarparu bwyd i ddefnyddwyr fwynhau'n ddiogel."



Cyng. Eluned Stenner a Sherry Carter (SSM) yn Erhan's Charcoal Grill.

Rhifau Defnyddiol Useful Numbers

PRIF SWITSFWRDD
MAIN SWITCHBOARD
☎ **01443 815588**

Minicom Minicom
☎ **01443 873626**

Rhif argyfwng ar gyfer
Gwasanaethau'r Cyngor:
Emergency Number for
Council Services:
☎ **01443 875500**
(Allan o Oriau yn unig • Out of hours only)

Gwasanaethau
Cymdeithasol i Blant
Children's Social Services
☎ **0808 100 1727**

Gwasanaethau
Cymdeithasol i Oedolion
Adults' Social Services
☎ **0808 100 2500**

BalchderStryd StreetPride
☎ **01443 866566**

Cyngor i Ddefnyddwyr
Consumer Advice
☎ **03454 040506**

Ymholiadau Treth y Cyngor
Council Tax Enquiries
☎ **01443 863002**

Ailgylchu Dodrefn
Furniture Recycling
☎ **01685 846830**

Bathodyn Glas Blue Badge
☎ **01443 866571**

Budd-daliadau Tai
/Treth y Cyngor
Housing & Council
Tax Benefits
Ceisiadau Newydd New Claims:
☎ **01443 866567**
Hawlwyr Presennol Existing Claimants:
☎ **01443 864099**

Rydym yn croesawu
galwadau yn Gymraeg.
We welcome calls in Welsh.

Digwyddiadau / What's On

Teithiau bwganod Ghost tours

Dydd Gwener a ddydd Sadwrn o Hydref tan Chwefror
Friday & Saturday from October until February

■ Profwch daith bwganod hunllefus ym Maenor Llancaiach Fawr - dywedir gan rai mai dyma un o'r tai a'r mwyaf o fwganod yng Nghymru.

O £16.50 - archebu o flaen llaw yn hanfodol.

■ Experience a haunting ghost tour at Llancaiach Fawr Manor - said by some to be one of the most haunted houses in Wales.

From £16.50 - advance booking essential.



Maenordy Llancaiach Fawr 01443 412248 Llancaiach Fawr Manor

Potiau bwganod ac Ectoplasm Ghoul Pots & Ectoplasm

Dydd Mawrth 30ain Hydref /
Tuesday 30th October / 11am - 3.30pm

■ Cymerwch ran mewn gweithdy potiau arswydus llawn llanast a gwnewch bot bwganod llawn o ectoplasm ffaidd! Dewch â photyn jam glân a'i gaead. £4.50 bob plentyn (4+ oed). Archebu'n hanfodol.

■ Take part in a very messy spooky jar workshop and make a very ghoulish pot filled with yukky ectoplasm! Please bring along a clean jam jar with lid. £4.50 per child (ages 4+). Booking Essential.



Coedwig Cwmcarn 01495 272 001 Cwmcarn Forest

Noson Gomedî'r 'Stiwt 'Stute Comedy Night

Dydd Gwener 5ed Hydref / Friday 5th October / 8pm

■ Mae Noson Gomedî misol y 'Stiwt yn dychwelyd am noswaith o hwyl a chwerthin fis Hydref.

Tocynnau: £11.50 o flaen llaw. £12.50 ar y drws.

■ The monthly 'Stute Comedy Night returns for a fun evening of laughter this October.

Tickets: £11.50 in advance. £12.50 on the door.



Sefydliad y Glowyr Coed Duon Blackwood Miners' Institute

01495 227 206

Y Darluniad MAWR: 'Mymiaid Rhyfeddol' The Big Draw: 'Amazing Mummies'

Dydd Mercher 31ain Hydref 11am -
1pm Wednesday 31st October

■ Cymerwch ran yn y dathliad byd fwyaf o ddarlunio. Dysgwch sut i dynnu llun Mymi Eifftaidd ar raddfa fawr. Yn rhad ac am ddim

■ Take part in the world's biggest celebration of drawing. Learn to draw a large scale Egyptian Mummy. Free



Amgueddfa Tŷ Weindio 01443 822666 Winding House Museum

Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy
I gael gwybodaeth am sgysiau, clybiau llyfrau a sesiynau crefft sydd ar y gweill yn eich llyfrgell leol e

www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau  **www.ca**

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing
For information about upcoming talks, book clubs and craft sessions at your local library v

Mae angen i Gyngor
Bwrdeistref Sirol Caerffili
ddatblygu Strategaeth Toileddau
Lleol ar gyfer y fwrdeistref sirol
erbyn 31 Mai 2019.

Er mwyn helpu i nodi angen, mae'r cyngor yn ceisio barn trigolion ac ymwelwyr â'r fwrdeistref sirol. I gael dweud eich dweud ewch i www.caerphilly.gov.uk/consultations/localtoiletstrategy a chwblhewch yr arolwg erbyn 28 Medi 2018.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch **01443 811368** neu e-bostiwch: policyteam@caerphilly.gov.uk



Toileddau / Toilets

Caerphilly County Borough
Council needs to develop
a Local Toilet Strategy for
the county borough by
31 May 2019.

To help identify need, the council is seeking the views of residents and visitors to the county borough. To have your say please visit www.caerphilly.gov.uk/consultations/localtoiletstrategy and complete the survey by 28th Sept 2018.

For more information, please call on **01443 811368** or e-mail: policyteam@caerphilly.gov.uk

Y Cyngor yn

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili y
ar gyfer cerbydau dosbarth 4, dosb
Gellir archebu profion o 7:45 am i 3:45 pm
ddydd Gwener. Am fwy o wybodaeth n

Council offer

Caerphilly County Borough Cou
its Tir-y-Berth depot for class 4
Tests can be booked 7:45 am to 3:45 pm
on Fridays. For more information or



Bwystfilod Hudol a Straeon Ofnadwy! Magical Monsters & Terrible Tales!

Dydd Llun 29ain Hydref / Monday 29th October / 1pm - 4pm

■ Profwch ysbryd Calan Gaeaf wrth ymuno â ni yn y goedwig am stori fwystfilaidd, malws melys o gwmpas y tân ac yna gwnewch eich wyneb elyll o bren i gymryd adref. £3 bob plentyn (5+ oed). Archebu'n hanfodol.

■ Get in the spirit of Halloween by joining us in the woods for a monstrous story, marshmallows around the camp fire and then make your own wooden troll face to take home. £3 per child (ages 5+). Booking essential.



Canolfan Addysg Parc Penallta Parc Penallta, Education centre

01443 816853

Ystrad Mynach Ffair Nadoligaidd • Festive Fayre

Sadwrn 17eg Tach / Saturday 17th Nov / 9am - 5pm

■ Profwch amrywiaeth o stondinau Nadoligaidd sy'n gwerthu addurniadau, gemwaith, teganau a danteithion yr ŵyl yn ogystal ag adloniant gwych i'r teulu cyfan ei fwynhau gan gynnwys ffair hwyl, ceirw Llychlyn a groto Siôn Corn. Yn rhad ac am ddim

■ Experience a range of festive stalls selling decorations, jewellery, toys and festive treats as well as fantastic entertainment for the whole family to enjoy including funfair rides, reindeers, and a Santa's grotto. Free



029 2088 0011

e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk

wch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 864068

caerphilly.gov.uk/events

ng: events@caerphilly.gov.uk

visit www.caerphilly.gov.uk or call 01443 864068

cynnig Profion MOT

yn cynnig profion MOT diduedd yn ei depo yn Nhir-y-Berth
arth 7 a cherbydau dosbarth 5-ysgafn.

o ddydd Llun i ddydd Iau a 7:45 am i 2:45 pm ar

eu i archebu prawf ffoniwch 01443 873 721



rs MOT Testing

ncil offers impartial MOT testing at
, class 7 and class 5-light vehicles.

n Monday - Thursday and 7:45 am to 2:45 pm

to book a test call 01443 873 721

Cost MOT yw:

The cost of an MOT is:

Dosbarth 4 / Class 4 £35

Dosbarth 7 / Class 7 £40

Dosbarth 5 / Class 5 £50

Eich Diogelu Chi • Protecting You

Nod tîm Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yw sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn le iach, diogel a theg i bobl fyw a gweithio ynddo ac i ymweld. Un o brif dasgau'r tîm yw datgelu'r gwir am yr unigolion a'r busnesau hynny sy'n gweithredu'n anghyfreithlon, a'u dwyn gerbron y llys.

Isod ceir enghreifftiau o erlyniadau diweddar:

The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe and fair place for people to live, work & visit. One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

Below are examples of recent prosecutions:

Erlyniadau Safonau Masnach • Trading Standards prosecutions

Enw Name	Tramgwydd Offence	Dyfarniadau Court Decision
Haraldo Cyfyngedig yn masnachu fel Subway, Stryd Fawr, Coed Duon	30 Gorffennaf 2018 yn Llys yr Ynadon Cwmbân. Yn cynnal y gweithgaredd trwyddedadwy o weini bwyd poeth rhwng 11pm a 5am heb drwydded.	Dirwy o £660, gordal o £66 a chostau o £638.30 i'r awdurdod lleol. Deddf Trwyddedu 2003.
Haraldo Limited trading as Subway, High Street, Blackwood	30 July 2018 at Cwmbân Magistrates Court. Carrying on the licensable activity of serving hot food between 11pm and 5am without a license.	£660 fine, £66 surcharge and £638.30 costs to the local authority. Licensing Act 2003.
Nicolii Peter Panayi o Gaerffili	30 Gorffennaf 2018 yn Llys yr Ynadon Cwmbân. Fel Cyfarwyddwr Haraldo Limited, roedd yn gyfrifol am y cwmni yn cynnal y gweithgaredd trwyddedadwy o weini bwyd poeth rhwng 11pm a 5am heb Drwydded, yn rhinwedd ei esgeulustod.	Dirwy o £200 a gordal o £30. Deddf Trwyddedu 2003.
Nicolii Peter Panayi of Caerphilly	30 July 2018 at Cwmbân Magistrates Court. As a Director of Haraldo Limited, was responsible for the company carrying on the licensable activity of serving hot food between 11pm and 5am without a License, by virtue of his neglect.	£200 fine and £30 surcharge. Licensing Act 2003.
Evan Courtney o Hengoed	26ain Mehefin 2018 Llys y Goron, Caerdydd. Gweithredu'n gamarweiniol drwy ddisgrifio cerbyd fel 'enghraifft ysblennydd' ac yn ei nodi yn addas i'r pwrpas, pan mewn gwirionedd roedd mewn cyflwr peryglus a heb fod yn addas i'r ffordd fawr.	Dirwy o £1200, gordal o £120, iawndal i ddefnyddwyr o£2487.40 a chostau o £8500 i'r awdurdod lleol. Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008.
Evan Courtney of Hengoed	26 June 2018 at Cardiff Crown Court. Misleading actions of describing a vehicle as a 'stunning example' and indicating it was fit for purpose, when in fact it was in a dangerous and unroadworthy condition.	£1200 fine, £120 surcharge, £2487.40 compensation to consumer and £8500 costs to the local authority. Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008.

Erlyniadau Iechyd Amgylcheddol • Environmental Health prosecutions

Enw Name	Tramgwydd Offence	Dyfarniadau Court Decision
Kentucky Fried Chicken (GB) Cyf	Ar 04/02/2017 yn KFC Uned 1 North Court, Stryd Fawr, Coed Duon, roedd pryd amrywiol cyw iâr rysâit wreiddiol wedi ei werthu heb ei goginio'n llawn. Roedd dau drosedd: 1) Wedi gosod bwyd ar y farchnad a oedd yn anniogel, lle'r oedd cyw iâr wedi ei werthu nad oedd wedi'i goginio'n llawn 2) Wedi methu gweithredu gweithdrefnau coginio diogel yn seiliedig ar egwyddorion HACCP. Plediodd y diffynnydd yn Ddieuog i'r ddau drosedd a chlywodd y llys yr achos yn ystod treial o 3 diwrnod yn Llys Ynadon Casnewydd ar y 11fed - 13eg Gorffennaf 2018.	Cafwyd Kentucky Chicken Chicken (GB) Cyf yn euog i'r ddau drosedd. Dirwy o £35,000 a'i gorfodi i dalu costau o £6,122, gordal dioddefwr o £170 a £500 o iawndal i'r achwynnydd. Erthygl 14 (1) Rheoliad 178/2002 Rheoliad 17 o Atodlen 2 i Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006.
Kentucky Fried Chicken (GB) Ltd	On 04/02/2017 at KFC Unit 1 North Court, High Street, Blackwood an original recipe chicken variety meal was sold which was found to be undercooked. There were two offences: 1) Placed food on the market that was unsafe in that chicken sold was undercooked, and 2) Failure to implement safe cooking procedures based on the HACCP principles. The defendant pleaded Not Guilty to both offences and the case was heard during a 3 day trial at Newport Magistrates Court on the 11th - 13th July 2018.	Kentucky Fried Chicken (GB) Ltd were found guilty to both offences. Fined £35,000 and ordered to pay £6,122 costs, £170 victim surcharge and £500 compensation to the complainant. Article 14(1) Regulation 178/2002. Regulation 17 of Schedule 2 to the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006.

Gellir gweld y rhestr yn llawn ar www.caerffili.gov.uk/erlyniadau
To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions

Caiff canlyniadau erlyniadau eu dangos am gyfnod cyfyngedig i ddangos i drigolion lleol bod y cyngor yn gweithredu mewn modd agored. Ni ddylid aildefnyddio gwybodaeth mewn unrhyw fodd heb ganiatâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.